



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Coed Duon**

**Ysgol Gyfun Coed Duon  
Ty Isha Terrace  
Coed Duon  
NP12 1ER**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Coed Duon

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Coed Duon
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal sesiynol
Person(au) cofrestredig	Bethan Seymore
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Bethan Seymore
Person â gofal	Andrea Parfitt
Nifer y lleoedd	19
Amrediad oedran y plant	2- 4 oed
Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor	6
Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor	4
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i ddydd Gwener 9:15y.b. - 11:45y.b.
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydy
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	28 Mawrth 2019
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Mawrth 2014
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	03/05/2022
Ychydig iawn o blant sy'n dod o deuluoedd lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.	

## **Diffyg cydymffurfio**

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## **Argymhellion**

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o amser cylch er mwyn  
hyrwyddo medrau Cymraeg y plant

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos yn canolbwyntio ar sut maent yn darparu amgylchedd sbardunol a chyfoethog, yn arbennig yn yr ardal allanol.

## Prif ganfyddiadau

### Lles:

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae'r rhan fwyaf yn dewis ble i chwarae, gan symud yn hyderus o un weithgaredd i'r llall. Mae bron bob plentyn yn dangos boddhad ac hapusrwydd ac yn chwarae gyda'u cyfeillion. Maent yn ymateb yn ardderchog i ymarferwyr ac ymwelwyr ac yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad yn eu chwarae a dysgu.

Mae'r plant yn dangos medrau dychmygol arbennig wrth chwarae tu allan yn y siop lysiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i siarad am y pethau maent wedi'u prynu ac yn mwynhau'r broses o ddewis a thalu am eu nwyddau. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio dychmyg a chreadigrwydd ardderchog wrth wrando ar stori am y tywydd yn yr ardal stori tu allan. Maent yn mwynhau gwisgo dillad addas a defnyddio sbectol haul i gyd-fynd â'r stori.

Mae mwyafrif y plant yn mwynhau cyfleoedd rhagorol ac ysgogol yn yr ardal chwarae tu allan. Maent yn llawn brwdfrydedd wrth ddefnyddio'r adnoddau garddio ac offer gwaith coed. Er enghraifft, mae nifer o blant yn defnyddio whilber yn llwyddiannus wrth fynd ati i ddyfrio'r hadau. Mae lleiafrif o blant yn cynorthwyo wrth ofalu am y planhigion ac yn teimlo boddhad wrth gwblhau'r dasg. Mae llawer o blant yn hoffi chwarae mewn grŵp ac wrth eu boddau'n chwarae'n flêr yn y gegin fwd gyda thywod, dŵr a phaent. Mae ychydig yn cymryd mantais o'r manau bach deniadol i fod ar eu pennau eu hunain i ddarllen neu wyllo pobl eraill. Mae medrau canolbwyntio'r plant yn datblygu'n llwyddiannus o ganlyniad i'r amrywiaeth o weithgareddau cyfoethog tu allan. Er enghraifft, maent yn mwynhau chwarae corfforol ar y trawstiau cydbwysedd, defnyddio'r beiciau a cheir a dringo ar y ffrâm ddringo.

Mae bron bob plentyn yn ymdopi'n dda iawn pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr wrth gyrraedd y lleoliad. Mae ychydig o blant yn cymryd amser i setlo ac yn derbyn cysur gan yr un ymarferydd er mwyn datblygu perthynas unigol ac ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn. Mae bron bob plentyn yn ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'u gweithwyr allweddol a gweddill yr ymarferwyr sy'n effeithio'n arbennig o dda ar eu lles a'u cymhelliant. Mae'r rhan fwyaf yn golchi dwylo, tynnu cot a bag a dewis enw i hunangofrestru yn syth wrth iddynt gyrraedd. Mae mwyafrif o blant yn datblygu medrau annibyniaeth da ac yn helpu tacluso ar ôl byrbryd ac yn helpu rhoi adnoddau i gadw. Maent yn teimlo pleser a boddhad wrth wneud eu gorau glas i helpu. Mae'r plant yn derbyn cysur tyner gan ymarferwyr ac mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn. O ganlyniad, mae bron bob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwranddo ar eu dewisiadau ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion.

### **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## **Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau, a thrwy arferion dyddiol, maent yn darparu cyfleoedd da iawn i blant ddatblygu i'w llawn botensial. Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad personol, er enghraifft trwy hybu arferion cadw'n iach a sut i drin pobl â pharch a chwarteisi. Mae'r ymarferwyr yn darparu bwydydd maethlon ac yn annog plant i gymryd rhan mewn chwarae egniol pob dydd. Mae'r holl ymarferwyr yn fodolau rôl ardderchog i'r plant eu hefelychu. Mae gan y lleoliad weithdrefnau trwyadl iawn ar gyfer cadw plant yn ddiogel. Maent yn cadw'r holl gofnodion o unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth berthnasol yn fanwl. Mae hyn yn cael ei fonitro bob wythnos gan yr arweinydd, sy'n trafod gyda gweithwyr allweddol a'r ymarferwyr eraill er mwyn ymateb i anghenion unigol y plant. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan fwyafrif yr ymarferwyr sy'n adlewyrchu'r pwyslais cryf ar ddiogelwch. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda iawn am anghenion a hoffterau plant. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru er mwyn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu'r berthynas gref iawn sy'n bodoli rhwng yr ymarferwyr a rhieni. Mae'r rhieni'n hyderus i adael eu plant gyda'r ymarferwyr medrus sy'n darparu gofal ardderchog. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda arbenigwyr yn y gymuned i roi cymorth proffesiynol i blant, yn ôl yr angen. Mae ymarferwyr yn darparu cymorth addas a sensitif i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn fedrus iawn er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o'u teimladau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amser cylch ac arsylwadau er mwyn trafod sut gall y plant adnabod a rheoli eu hemosiynau. Mae lleiafrif o'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant a phrofiad yn y maes arbenigol hwn. O ganlyniad, mae plant yn elwa o'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwytnwch a dyfalbarhad.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ac yn eu hannog i drin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn dathlu defodau fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd a Diwali ac yn nodi achlysuron cenedlaethol fel Diwrnod y Cadoediad. Mae'r plant hefyd yn rhoi diolch am eu bwyd pob dydd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am y byd gan gynllunio profiadau uniongyrchol gydag adnoddau naturiol cynaliadwy.

## **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd a dealltwriaeth gadarn o anghenion pob un plentyn. O ganlyniad, maent yn cynllunio profiadau dysgu difyr mewn cyd-destunau dilys, er enghraifft wrth ddefnyddio arian a llysiâu go iawn yn y siop. Mae ymarferwyr yn ymrwymo'n llwyr i fodloni gofynion y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, ac yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol a chyfoethog i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn manteisio'n eithriadol o dda ar yr ardal allanol ac yn ennyn diddordeb, rhyfeddod a chwilfrydedd plant yn gelfydd, er enghraifft wrth ddarganfod cerrig bach amrywiol yn y pridd a dyfrio a gofalu am eu hedyn. Maent yn cynllunio cyfleoedd hynod gyfoethog ar gyfer datblygu medrau corfforol a chreadigol plant; er enghraifft, maent yn annog y plant i fynegi eu hunain trwy ddawnsio gyda sgarffiau, a chreu ac yna perfformio ar eu drymiau. Maent yn darparu profiadau effeithiol ar gyfer datblygiad gwybyddol a datrys problemau plant, fel didoli a dosbarthu moch coed a newid llif y cafnau dŵr.

Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau ieithyddol y plant. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gyson, yn ôl eu lefel hyder eu hunain. Fodd bynnag, collir cyfleoedd i atgyfnerthu geirfa ar ddiwedd amser cylch. Maent yn manteisio'n llwyddiannus ar gyfleoedd naturiol i ddatblygu medrau mathemategol y plant, er enghraifft cyfrif ceir ar y ramp a chymharu maint y cennin Pedr. Mae'r lleoliad yn datblygu medrau digidol plant yn dda wrth ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol i gyfateb siapiau dau ddimensiwn, a thynnu lluniau gyda chamerâu.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn gosod disgwiliadau uchel ac yn datblygu cyfleoedd i fagu annibyniaeth plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn disgwyl iddynt osod y bwrdd amser byrbryd a rhoi'r sbarion yn y bin compost. Mae ymarferwyr yn annog plant yn fwiadus i gymryd eu tro er mwyn deall pwysigrwydd rhannu. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth o ddatblygiad plant yn fedrus wrth gefnogi a hwyluso'r dysgu. Er enghraifft, maent yn cyd-chwarae'n naturiol gyda'r plant, ac yn ymyrryd yn fedrus trwy holi'n bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i adeiladu dealltwriaeth ysbrydol, moesol a diwylliannol plant, wrth ddysgu am dathliadau diwylliannau amrywiol fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineidd. Maent yn ymfalchïo yn niwylliant Cymru ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ohono, er enghraifft wrth gymysgu a chreu toes cacen gri, cyn mynd ati i'w coginio.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer arsylwi ac asesu plant. Trwy arsylwadau rheolaidd, mae ymarferwyr yn ennill dealltwriaeth drylwyr o'r hyn y gall plant ei gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio ar gyfer y camau dysgu nesaf. Mae adroddiadau i rieni yn amlinellu'r hyn y mae'r plant wedi'i gyflawni'n dda.

### **Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd o safon ragorol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol iawn ac yn dathlu creadigrwydd y plant fel unigolion yn arbennig o dda. Mae gan y lleoliad nifer o arddangosfeydd o grefft plant sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth a pherthnasedd yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, ac amrediad cyfoethog o adnoddau sy'n hybu chwilfrydedd a dychymyg. Mae'r ardal synhwyrdd yn darparu cyfle i blant ymlacio a myfyrio mewn awyrgylch hamddenol, a themlo'n gysurus. Mae llawer o blant yn datblygu medrau newydd ac yn mwynhau defnyddio'r camerau i dynnu lluniau o'u ffrindiau, ac yna gweld eu gwaith ar waliau'r lleoliad. Mae'r plant yn ymfalchïo yn eu gwaith ac mae hyn yn adeiladu eu hyder yn llwyddiannus.

Mae amrywiaeth yn y ddarpariaeth allanol yn arbennig, ac yn darparu cyfleoedd hynod gyfoethog ar gyfer sbarduno ac ennyn chwilfrydedd plant. Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig dros ben i archwilio'r ystod eang o ardaloedd. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cyfansoddi ar y wal sain, modelu gyda'r clai a thyrchu yn y pridd. Mae gweithgareddau garddio difyr, fel plannu tatws a blodau, yn apelio at nifer o blant ac yn datblygu diddordeb yn y broses o dyfu bwyd.

Trefnir yr amgylchedd yn ardderchog er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae annibynnol i bob plentyn. Mae'r amgylchedd a'r amrediad adnoddau yn cefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol i fynegi eu hunain ac i deimlo'n gysurus, er enghraifft wrth iddynt wneud toes gyda pherlyisiau a phersawr i ysgogi'r synhwyrau. Mae mwyafrif y plant yn dangos boddhad ac yn falch o'u cyflawniadau.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cadw'n iach trwy ddilyn ystod o bolisiau clir a chynhwysfawr iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth drylwyr i asesu pob risg sy'n perthyn i'r ardaloedd allanol a mewnol yn ddyddiol. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelwch wedi gwreiddio'n gadarn ac yn effeithiol iawn. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn. Mae'r lleoliad yn lân a threfnus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr ac yn cynnal archwiliad rheoli heintiau yn rheolaidd. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel. Maent yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol yn dda iawn; er enghraifft, mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinydd yn datblygu a chynnal cymuned glòs y lleoliad yn hynod o effeithiol wrth rannu a gwireddu ei gweledigaeth. Mae wedi creu ethos cadarnhaol a chefnogol fel bod plant ac ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhoi o'u gorau.

Mae holl ymarferwyr y lleoliad yn cymryd rhan yn y broses o hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyfrannu'n llawn at ddatblygu'r cynlluniau wythnosol i fodloni gofynion y cwricwlwm i leoliadau nas cynhelir. Mae gan yr arweinydd weithdrefnau effeithiol ar waith i nodi cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r arweinwyr yn cywain barn rhanddeiliaid yn rheolaidd ac yn gweithredu'n effeithiol yn unol ag argymhellion. Arweinir drwy esiampl wrth fodelu'n effeithiol bwysigrwydd myfyrio, monitro ac arfarnu'r gwelliannau ar draws y lleoliad. Enghraifft ddiweddar o hyn yw creu'r ardal synhwyraidd sy'n caniatáu i blant ddatblygu'n emosiynol a chreadigol.

Mae trylwyredd yr arweinyddiaeth yn amlwg yn y gwaith monitro a goruchwyllo, er enghraifft wrth annog ymarferwyr i ysgrifennu arsylwadau mwy penodol ar ddatblygiad plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol wrth gynllunio'r camau dysgu nesaf. Mae gan yr arweinydd weithdrefnau recriwtio a sefydlu effeithiol iawn ar waith, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn glir ynghylch cyfrifoldebau eu swydd. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr ac mae'n sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â gweithdrefnau'r lleoliad. Mae'r arweinydd yn ymroddgar iawn i sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr ymarferwyr, ac mae effaith yr hyfforddiant yn amlwg yn eu hymarfer beunyddiol.

Ceir datganiad o ddiben sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd ac yn bodloni safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinydd wedi sicrhau cyfathrebu clir gyda'r pwyllgor, ac yn blaenoriaethu bod y pwyllgor newydd yn chwarae rhan ganolog yn natblygiadau'r cylch.

Mae'r lleoliad yn rheoli cyllid yn effeithiol gan sicrhau adnoddau o ansawdd arbennig ar gyfer ysgogi datblygiad corfforol a chreadigol plant. Un enghraifft o hyn yw'r defnydd o'r grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer archebu adnoddau i gyfoethogi'r ardal allanol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n arbennig o dda gyda rhieni i nodi anghenion a hoffterau unigol eu plant yn eu llyfr 'Dyma Fi'. Mae rhan fwyaf y rhieni yn hapus iawn â'r ddarpariaeth a'r gofal ac yn werthfawrogol iawn o'r adborth cyson ar gynnydd a lles eu plentyn. Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid er mwyn gwella lles a dysgu plant. Mae'r arweinydd yn hyrwyddo pontio effeithiol gydag ysgolion lleol er mwyn sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n llyfn i'r camau nesaf yn eu dysgu.



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (<http://careinspectorate.wales>) ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.